Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.9 Cwynion

Mae angen polisïau a dulliau da ar gyflogwyr ar gyfer delio gyda phroblemau yn y man gwaith, a sicrhau triniaeth gyfartal i bob gweithiwr. Rhaid i'r polisïau a'r dulliau fod yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol. Mae deddfwriaeth y DU yn diogelu gweithwyr, felly rhaid i fudiad weithredu'n deg ac yn ôl ymarfer rheoli da.

Polisi cwynion

Mae polisi da yn rhoi cyfarwyddyd i reolwyr pan fo problem, ac yn sicrhau fod gweithwyr a rheolwyr yn gweithredu'n deg. I weithiwr, mae'n dangos pa drywydd i'w ddilyn os oes problem neu gŵyn. Mae yna ddull statudol i'w ddilyn.

Mae'r ddogfen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig, ac ni ddylid ei ddehongli fel datganiad cyfreithiol awdurdodol.

Model o Bolisi Cwyn

1. Cyflwyniad

O dro i dro, mae unigolion, neu grŵp o unigolion yn wynebu problemau mewn sefyllfa gwaith, sydd angen ei ddatrys. Mae'r dull yma yn darparu mecanwaith i ddatrys y fath broblemau mewn ffordd deg a chyflym.
Mae'r dull yn gymwys ar gyfer gweithwyr <*Enw'r mudiad*> ar gyfer datrys unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol i'w cyflogaeth.

2. Egwyddorion

Mae <*Enw'r mudiad*> yn disgwyl ac yn annog gweithwyr a rheolwyr i ddatrys problemau mewn dull derbyniol i bawb cyn gynted â phosib ac ar y lefel isaf posib.

3. Dull gweithredu

3.1 Dull anffurfiol

Os oes gan weithiwr fater neu broblem, dylid ei godi'n anffurfiol gyda'i reolwr llinell uniongyrchol. Disgwylir y bydd mwyafrif y problemau yn cael eu datrys ar y lefel yma. Fodd bynnag, os yw'r dull anffurfiol yma yn methu, wedyn rhaid gweithredu'r dull ffurfiol.

3.2 Dull ffurfiol

Cam Un

Os na ddeuir at ddatrysiad sy'n gytûn i bawb yn anffurfiol, dylai'r gweithiwr nodi ei gŵyn yn ysgrifenedig at ei reolwr llinell.

Cam Dau

Rhaid i'r rheolwr llinell wahodd y gweithiwr i gyfarfod i drafod y cwyn. Mae hawl gan y gweithiwr gael cynrychiolydd yn gwmni iddo.

Dylai'r cyfarfod gymryd lle o fewn <*nodwch nifer* > diwrnod ar amser a lle sy'n rhesymol i'r gweithiwr.

Unwaith y bydd y rheolwr llinell wedi ystyried y cwyn yn ofalus cyn cyrraedd penderfyniad, bydd yn rhoi gwybod i'r gweithiwr pryd bydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

Yn dilyn y cyfarfod, bydd y rheolwr llinell yn rhoi gwybod i'r gweithiwr beth yw'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, o fewn <*nodwch nifer* > diwrnod ar ôl y cyfarfod. Bydd y llythyr yma hefyd yn rhoi gwybod i'r gweithiwr am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Cam Tri

Os yw'r gweithiwr yn anhapus gyda'r penderfyniad, rhaid iddo roi gwybod i'r rheolwr llinell ei fod yn dymuno apelio.

Fe wneir trefniadau, mor brydlon â phosib, ar gyfer cyfarfod apêl i'w arwain gan <*reolwr arall, un sy'n uwch na'r rheolwr llinell*>. Atgoffir y gweithiwr fod hawl ganddo gael cynrychiolaeth yn y cyfarfod apêl.

Yn dilyn yr apêl, bydd y rheolwr perthnasol yn rhoi gwybod i'r gweithiwr ei benderfyniad yn ysgrifenedig o fewn <*nodwch nifer* > diwrnod i'r cyfarfod apêl.

Mae penderfyniad yr apêl yn derfynol.

Y bwriad yw glynu at y graddfeydd amser a osodwyd yn y dulliau gweithredu, ond ble nad yw hyn yn bosib, gellir cyd-gytuno ar estyniad.

Y gobaith yw y gellir trin â gwahaniaethau neilltuol yn unionsyth i sicrhau nad ydynt yn cael effaith ar y gweithiwr a gweithrediad effeithiol y <*Enw'r mudiad*>.

Er mwyn cynnal perthynas gweithio da ble mae gweithwyr a rheolwyr yn cydweithio i ddatrys problemau, disgwylir yn gyffredinol i'r ddwy ochr weithio'n normal.

Mae datrys ein problemau ein hunain mewn modd cadarnhaol ac adeiladol yn dda ar gyfer y mudiad, a cheisiwn wneud hyn ar bob achlysur. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau neilltuol, a gyda chytundeb ar y cyd, bydd yn bosib gofyn am gymorth cyrff allanol, megis ACAS, er enghraifft.

Gwybodaeth bellach

ACAS
Ffôn:08457 474747
www.acas.org.uk

Wales TUC Cymru
Ffôn: 029 20 347010
wtuc@tuc.org.uk
www.wtuc.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:24/02/2010

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk